



Cylchlythyr Pasg 2009

Haleliwia, atgyfododd Crist. Yn wir atgyfododd! Cyfarchion gorfoleddus y Pasg gan Cytûn. Rydym yn ffyddiog y bydd y nodiadau estynedig hyn yn ffynhonnell anogaeth ac yn alwad o ysgogiad i weddïo ar ein rhan ni.

Materion Ffydd a Threfn – Ar yr adeg hon o lawenhau i'r ffydd Gristnogol da yw cofnodi bod llawer o weithgareddau cyfredol Cytûn yn canolbwyntio ar addoli, tystiolaethu a gweinidogaeth.

Gan weithio mewn partneriaeth gyda'r Urdd a Ffederasiwn Heddlu'r DU, mae Cytûn yn gweithio ar ddau wasanaeth cenedlaethol yng Nghaerdydd yn ddiweddarach eleni. Bydd y ddau wasanaeth yn ddathliadau cenedlaethol arwyddocaol yng nghyd-destun Cymru a'r DU. Bwriad gwasanaeth yr Urdd yw llawenhau yn amrywiaeth ddiwylliannol Cymru, ac mae Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol Ffederasiwn yr Heddlu bob amser yn achlysur teimladwy iawn. Bydd Cytûn yn gweddïo dros deuluoedd swyddogion fu farw wrth gyflawni eu dyletswyddau yn ystod 2008. Bydd Cytûn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid rhyng-ffydd a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ar ddathlu dyheadau Llywodraeth y DU am Wythnos Rhyng-Ffydd i Gymru a Lloegr yn yr hydref. Mae'r gwaith yma yn cael ei arwain gan y Parchedig Aled Edwards o fewn y tîm staff.

O dan arweinyddiaeth staff Rhian Linecar, mae Cytûn hefyd yn edrych ymlaen yn ystod 2009 at ddarparu plattform cadarn ar gyfer tystiolaeth gyffredin yr eglwysi yn y Sioe Frenhinol, Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Y Bala. Da yw gallu adrodd bod y trefniant y cytunodd Cytûn arno gydag awdurdodau'r Eisteddfod Genedlaethol o ran tocynnau am ddim ar gyfer addoliad agoriadol y Sul yn y Pafiliwn wedi gweithio cystal yn 2008, fel bod yr un trefniant i ddigwydd yn Eisteddfod y Bala fis Awst eleni. Mae manylion ar sut i gael gafael ar docynnau ar gyfer y gwasanaeth i'w cael gan swyddfa Cytûn neu ar ein gwefan. Byddai'n help mawr i ni petai pawb sy'n gallu gwneud hynny yn archebu eu tocynnau ar-lein.

Un o'r prosiectau eraill sydd gennym ar hyn o bryd yw ceisio sicrhau bod Cymru'n nodi'r digwyddiad eciwmenaidd 'Caeredin 2010: Tystiolaethu i Grist Heddiw', sy'n coffáu Cynhadledd Genhadol y Byd, digwyddiad allweddol a gynhaliwyd yng Nghaeredin yn 1910. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael dros y misoedd nesaf.

Mae lle blaenllaw hefyd i weinidogaeth ar agenda Cytûn. Diolch i alw mawr, byddwn yn cynnal cwrs 'Croeso i Gymru' yn ddiweddarach

eleni; y bwriad yw ei gynnal ym mis Tachwedd 2009 ac mae trefniadau ar waith i'w hysbysebu ymhlith yr enwadau. Gan weithio gyda Chenhadaeth Ddiwydiannol Morgannwg mae pwyslais yn cael ei roi ar bwysigrwydd caplaniaeth yn yr ardaloedd sydd wedi'u taro gan ddiweithdra. Mae Rhian hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar faterion Caplaniaeth Gofal Iechyd ar ran Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru, ac mae yn y broses, yng nghyd-destun addysg grefyddol, o gasglu gwybodaeth am gynrychiolwyr eglwysi rhyddion ar CYSAGau. Byddai'n falch o glywed gan unrhyw aelod o eglwys rydd fyddai'n fodlon gwasanaethu ar CYSAG lleol petai yna le gwag.

Mae gweinidogaeth leol yn ffocws cyson i Cytûn. Mae aelodau staff yn ceisio ymweld â grwpiau lleol a'u cefnogi. Nawr rydym wrthi'n ystyried sut i hybu cyfryngwyr, naill ai fel grwpiau neu fel unigolion gweithgar, i hyrwyddo eciwmeniaeth yn lleol. Cyn bo hir bydd gwahoddiad i grwpiau lleol i gael llais ar Grŵp Galluogi Cytûn sydd i'w sefydlu cyn hir, ac a fydd yn gweithio ochr yn ochr â Bwrdd Cytûn yn cynnig cyngor a chyfeiriad strategol o ran materion lleol a chenedlaethol.

Ers iddo gychwyn gweithio i Cytûn ym mis Mawrth 2008 ar secondiad rhan amser, mae'r Parchedig Peter Trow wedi gwneud cryn gynnydd mewn sawl maes. Mae datblygu strwythurau cefnogi ar gyfer gweithio eciwmeniaid lleol, yn enwedig wrth gefnogi partneriaethau eciwmeniaid lleol, wedi bod yn flaenoriaeth uchel. Mae'r gwaith hwn wedi symud yn ei flaen wedi i Fwrdd Cytûn gytuno ar gynnig i greu Corff Noddi Cenedlaethol. Bydd cynigion manwl yn cael eu cyflwyno i Fwrdd a Grŵp Galluogi Cytûn ym mis Hydref 2009.

Gwnaed rhywfaint o gynnydd ar ddatblygu adnoddau litwrgaidd ac addoli, ynghyd â datblygu'r wefan fel ffordd o drosglwyddo'r deunydd i'r eglwysi. Roedd hyn wedi'i ddal yn ôl ar y cychwyn oherwydd problemau cynnar gyda'r wefan, sydd wrthi'n cael eu datrys, a bydd hyn yn elfen bwysig o waith Peter yn ystod gweddill 2009. Mae'r gwaith o adolygu litwrgïau allweddol, gan weithio mewn partneriaeth gyda Chomisiwn yr Eglwysi Cyfamodol, hefyd wedi cychwyn.

Cyn penodi Rhian Linecar, rhoddodd Peter gefnogaeth amhrisiadwy i rywfaint o waith Ffydd a Threfn Cytûn, ac mae wedi parhau i gynnig cefnogaeth yn enwedig wrth gynnwll Panel Ffydd a Threfn Comisiwn yr Eglwysi Cyfamodol, sydd wedi cael y gwaith o gynhyrchu adroddiad pwysig erbyn mis Tachwedd 2009.

Materion Cyhoeddus – Mae Swyddog Polisi Cytûn yn y Cynulliad Cenedlaethol, Geraint Hopkins, yn parhau i wasanaethu cymunedau

ffydd Cymru ar Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth, ystyriodd y Cyngor y strategaeth bresennol ar gyfer rheoli a hyrwyddo treftadaeth ac adeiladau hanesyddol Cymru. Mae nifer o bwysau allweddol ar hyn o bryd. Yn eu plith mae adeiladau sydd wedi'u peryglu gan ddefnydd ac arferion sy'n newid, neu gynnal a chadw annigonol, fel eglwysi, capeli, ac adeiladau cymunedol. Mae trafodaethau wedi'u cynnal rhwng Cytûn, y Gymuned ryng-ffydd a Cadw o ran sut y gallai'r llywodraeth gynorthwyo eglwysi'n well.

Mae Cytûn a'r gymuned ryng-ffydd wedi bod mewn cysylltiad agos wrth i'r Ymgynghoriad Drafft ar y Cynllun Cydraddoldebau Sengl gael ei ddatblygu, ac mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi gwneud ei gyfraniad ei hun i'r ymgynghoriad. Mae Cynllun Cydraddoldebau Sengl Llywodraeth Cynulliad Cymru yn egluro sut y bydd yn hyrwyddo cydraddoldeb ac yn cyflawni ei dyletswyddau cydraddoldeb statudol (anabledd, hil a rhyw). Bydd yr un egwyddorion bras yn cael eu cymhwyso hefyd i'r meysydd sydd newydd eu cynnwys o ran cydraddoldeb - oedran, crefydd neu gred, trawsrywedd a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'n edrych ar sut y byddan nhw'n asesu effaith eu gwaith ar wahanol grwpiau a'r camau y byddan nhw'n eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â'r effaith honno dros y tair blynedd nesaf.

Dylid nodi hefyd bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yr heddlu, Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru, a grwpiau ffydd, ymhlith eraill, er mwyn datblygu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol i Gymru. Y cam nesaf wrth ddatblygu'r strategaeth yw clywed barn mudiadau o bob rhan o Gymru sydd â diddordeb. Bydd yr ymgynghoriad ar y strategaeth yn para tan Ebrill 6ed 2009.

Mae Geraint hefyd wedi dilyn datblygu'r compact rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru, a'r Trydydd Sector. Mae 'Y Trydydd Dimensiwn - Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Cynllun y Sector Gwirfoddol' (Ionawr 2008) yn nodi'r isod ymhlith ei dargedau: *'Cryfhau cefnogaeth y trydydd sector ar gyfer y defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol drwy gydweithio strategol rhwng y sector, Llywodraeth y Cynulliad, a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.'* Mae'n awgrymu gwneud hyn drwy gytuno ar gompact rhwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r trydydd sector. Mae'r compact hwn yn tynnu polisiau, strategaethau ac agendau pob partner ynghyd, gan weithio tuag at set gyffredin o egwyddorion a chamau gweithredu. Mae fersiwn terfynol o'r compact yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd gan Fwrdd yr Iaith

Gymraeg, ac mae disgwyl iddo gael ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn ystod 2009.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisiau lleihau'r peryglon i iechyd sy'n gysylltiedig â gwres eithafol ac maen nhw am glywed barn ar y Cynllun Tywydd Poeth drafft i Gymru. Bydd yr holl ymatebion a dderbynnir yn helpu llunio Cynllun Tywydd Poeth terfynol i Gymru. Mae'r Cynllun yn egluro'r trefniadau i rybuddio aelodau o'r cyhoedd (yn enwedig grwpiau bregus) a staff priodol ym meysydd gofal, a gofal iechyd a chymdeithasol, am beryglon gwres eithafol. Mae'n darparu canllawiau ar gyfer yr asiantaethau ar draws Cymru sy'n ymwneud â'r canlynol:

- rhybuddion gwres;
- addysg i'r cyhoedd;
- rhoi rhwydweithiau cymdeithasol ac iechyd ar waith; a
- gwylidwriaeth.

Cafodd Cytûn ei gynrychioli hefyd yn y Gweithdy Arbed Ynni a Gwres yng Nghymru a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ddiwedd Mawrth. Ar Chwefror 12, lansiodd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol dri ymgynghoriad ar Strategaethau Arbed Ynni a Gwres.

Mae proses ymgynghori arall ar waith a all fod o ddiddordeb i'r eglwysi. Mae Ymgynghoriad Cynllun Strategol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn darparu cyfle i'r eglwysi rannu eu barn a rhoi sylw ar y blaenoriaethau strategol arfaethedig fydd yn arwain gwaith y Comisiwn ac ar raglenni arfaethedig y byddan nhw'n eu dilyn. Byddai croeso i sylwadau.

Efallai y bydd eglwysi'n dymuno ymateb i'r ymgynghoriad cyfredol ar y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ar yr iaith Gymraeg a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cymru. Dylid gyrru ymatebion at Swyddfa Cymru, Tŷ Gwydr, Whitehall, Llundain, SW1A 2ER erbyn Ebrill 17 2009.

Apêl RNIB - Yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008, cychwynnodd Cytûn a'r RNIB ar bartneriaeth, gan lansio apêl ar y cyd, yn y gobaith o godi digon o arian i gynhyrchu'r Beibl mewn Braille Cymraeg. Byddai'n galonidid pe bai'r £5,192 sydd ei angen er mwyn cynhyrchu Efengyl Matthew mewn Braille wedi'i godi erbyn Eisteddfod y Bala.

Gellir anfon sieciau at RNIB Cymru, Trident Court, East Moors Road, Caerdydd, CF24 5TD. Ffôn: 029 2045 0440.

Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, 58 Richmond Road, Caerdydd CF24 3UR 029 2046 4375 post@cytun.org.uk Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 5853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestrdig | Rhif: 1117071